# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

*Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*

**Adran:**

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:**

*Julie Morgan, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dyddiad Dechrau:**

*Dyddiad Cyflwyno yn y Cynulliad – 11 Chwefror 2020*

**Cyfeiriad e-bost:**

GwellaGwasanaethauCymdeithasol@gov.wales

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen, ac ar gyfer gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar bapur gwyn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' a gyhoeddwyd yn 2011.

2. Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am fonitro effaith y Ddeddf ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, cafodd fframwaith mesur perfformiad ei gyflwyno yn 2016 fel cod ymarfer. Fodd bynnag, nid yw'r broses ymgysylltu â'r sector a nodwyd yn y Cod hwn yn gweithio yn unol â'r bwriad. Therefore this new Code revokes the Code of practice in relation to the performance and improvement of social services issued in 2016 and is intended to address the issues identified by the sector. Felly mae'r cod newydd hwn yn diddymu'r cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd ym 2016, a bwriedir iddo fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y sector.

### Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

3. Bydd y cod ymarfer newydd mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru[1] yn dod i rym ym mis Ebrill 2020. Wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'n disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru o ddefnyddio pob math o ddulliau gwahanol i gasglu, dadansoddi a deall data a'r dystiolaeth o gyflwyno gofal a chymorth, a rhoi cymorth i ofalwyr ledled Cymru.

4. Mae'r cod ymarfer yn disgrifio uchelgais i sicrhau newid go iawn a pharhaol i'r ffordd o fesur ac adrodd am wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a sut mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i lywio dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dull newydd hefyd yn rhoi cryn bwyslais cyfartal ar berfformiad a gwella, mewn perthynas â chyflwyno'r gwasanaethau hyn dan y Ddeddf.

5. Mae'r cod ymarfer newydd yn nodi dau faes y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol eu defnyddio i lywio eu perfformiad a gwelliant yng nghyd-destun y Ddeddf:

   - Y safonau ansawdd newydd
   - Y fframwaith perfformiad a gwella newydd

### Safonau Ansawdd

6. Mae'r safonau ansawdd yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol, o ansawdd y cymorth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol anelu at geisio'i ddarparu. Cynlluniwyd y safonau er mwyn cyd-fynd â saith nod llesiant

[1] Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol: INSERT LINK

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 201 a Chod Ymarfer Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol[2] yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, law yn llaw â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

7. Nod y safonau ansawdd newydd yw bod yn uchelgeisiol a llawn dyheadau. Cynlluniwyd y safonau er mwyn darparu gweledigaeth glir i awdurdodau lleol am wasanaethau cymdeithasol yma yng Nghymru, gyda'r nod o gefnogi ac annog arferion gorau a dulliau arloesol o weithio.

**Fframwaith perfformiad a gwella**

8. Cynlluniwyd y fframwaith perfformiad a gwella i helpu awdurdodau lleol i ddangos tystiolaeth o'u cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd. Bydd y data a'r dystiolaeth a gesglir drwy'r fframwaith yn rhoi ystod o ddata a thystiolaeth i awdurdodau lleol y dylent eu defnyddio i fesur eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Ddeddf, a llywio eu gweithgareddau gwella.

9. Nod y fframwaith perfformiad a gwella yw newid y modd mae awdurdodau lleol yn casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio data a thystiolaeth. Mae'r fframwaith newydd yn cynnwys tair elfen sy'n gweithio'n gyfannol, sef:

   - Mesur gweithgarwch a pherfformiad
   - Deall profiadau a chanlyniadau
   - Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliannau

**Mesur gweithgareddau a pherfformiad**

10. Mae'r data a gesglir yn elfen hon y fframwaith yn cynnig cipolwg ar y ffactorau sy'n cyfrannu at ddeall y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, trwy ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth am beth mae awdurdodau lleol yn ei wneud, pa mor dda mae awdurdodau lleol yn darparu gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r Ddeddf a data am bobl mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae creu data cyson parhaus o Fôn i Fynwy yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol yn ogystal â chaniatáu i awdurdodau lleol rannu data a gwybodaeth sy'n eu helpu i wella a chydweithredu.

**Deall profiadau a chanlyniadau**

11. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn yr elfen hon yn darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am brofiadau pobl o ofal cymdeithasol, yn ogystal â sut ac a ydyn nhw'n cyflawni eu canlyniadau llesiant.

12. Byddwn hefyd yn datblygu arolwg o brofiad defnyddwyr a fydd yn casglu gwybodaeth gan oedolion, plant, gofalwyr a rhieni er mwyn deall profiadau pobl o ofal a chymorth yn well, a phrofiadau'r gofalwyr o dderbyn cymorth.

[2] https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-10/181023-cod-ymarfer-ar-gyfer-adolygu-gwasanaethau-cymdeithasol-awdurdodau-lleol-dogfen-ymgynghori-cy.pdf

## Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliannau

13. Bwriad yr elfen hon yw helpu awdurdodau lleol i ddeall y cyd-destun gofal cymdeithasol ehangach a sut gellir gwella eu darpariaeth a'u hymarfer. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio'r dystiolaeth ymchwil i lywio eu gwasanaethau, er mwyn llywio gwelliannau a thynnu sylw at arferion gorau. Hefyd, bydd disgwyl i awdurdodau lleol gomisiynu neu gynnal ymchwil yn unigol, yn rhanbarthol neu mewn partneriaethau, yn y meysydd pwysicaf iddyn nhw.

## Atebolrwydd

14. Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd, gan ddefnyddio'r dulliau a nodwyd yn y fframwaith perfformiad a gwella, bob blwyddyn – trwy Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol[3] (a elwir yn aml yn Adroddiad y Cyfarwyddwr). Bydd disgwyl iddynt ddangos data o dair elfen y fframwaith er mwyn profi a dangos tystiolaeth o'u cynnydd.

## Y tymor hir

15. Cafodd y cod ymarfer ei gynllunio ar y cyd â'r sector gofal cymdeithasol, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn y tymor hir. Nid yw'r data a'r dystiolaeth gyfredol sy'n cael eu casglu dan y Ddeddf yn adlewyrchu'r ystod lawn o gymorth sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Felly, mae'n hollbwysig fod y dull newydd hwn a nodir yn y cod ymarfer yn cael ei fabwysiadu fel bod y data a'r dystiolaeth a gesglir yn adleisio realiti gwasanaethau cymdeithasol Cymru yn llawn, ac yn addas at y dyfodol. Bydd yn helpu awdurdodau lleol i ddeall eu gwasanaethau'n well, a'u heffaith ar bobl sydd angen mwy o ofal a chymorth a'r gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio'n fwy effeithio a gwneud penderfyniadau deallus sy'n ystyried yr effaith tymor hir. Bydd yn fodd i Lywodraeth Cymru ddeall y patrymau cenedlaethol yn yr hirdymor, a fydd yn llywio datblygiadau polisi ac effaith polisïau dros amser.

## Atal

16. Atal yw un o brif egwyddorion y Ddeddf, ac fe'i hystyriwyd yn llawn wrth ddatblygu'r cod ymarfer hwn. Mae dwy Safon Ansawdd newydd sy'n canolbwyntio ar atal wedi'u datblygu fel rhan o'r cod y disgwylir i'r holl awdurdodau lleol weithio tuag ato. Bydd hyn yn sicrhau bod materion atal bob amser yn cael eu hystyried wrth weithredu'r cod a bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar y rheiny sydd angen cyngor a gwasanaethau ataliol er mwyn osgoi uwchgyfeirio angen, yn ogystal â rhai sy'n derbyn gofal a chymorth ffurfiol.

## Integreiddio

17. Cafodd y safonau ansawdd sy'n rhan o'r cod ymarfer hwn eu datblygu yn unol â'r amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r dull hwn yn cynnwys dwy Safon Ansawdd a ddatblygwyd dan bennawd

[3] Fel sy'n ofynnol o dan adran 144A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Partneriaethau ac Integreiddio. Bydd yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn canolbwyntio ar integreiddio fel blaenoriaeth a bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau o'r radd flaenaf, cwbl integredig a chynaliadwy, i bobl.

### Cydweithio

18. Cafodd y safonau ansawdd sy'n rhan o'r cod ymarfer hwn eu datblygu yn unol â'r amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r dull hwn yn cynnwys dwy Safon Ansawdd a ddatblygwyd dan bennawd Partneriaethau ac Integreiddio. Bydd yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn mabwysiadu dull cydweithredol o gynnig gofal a chymorth, gan gynnwys partneriaid allweddol eraill fel bo'r angen, a sicrhau bod pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal, cydweithredol.

### Cynnwys

19. Datblygwyd y cod ymarfer gyda chyfraniad llawn y sector gofal cymdeithasol, partneriaid allweddol fel y meysydd iechyd, tai ac addysg a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Bydd y datblygiad parhaus hwn yn parhau wrth i'r cod gael ei weithredu, a thrwy waith monitro a gwerthuso ffurfiol o effaith y Ddeddf, er enghraifft, drwy'r prosiect Mesur y Mynydd a fydd yn cyhoeddi ei gasgliadau Cam 2 ym mis Medi 2020. Mae cyfraniad llawn ein holl bartneriaid sy'n cael eu heffeithio gan y cod hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei weithredu'n llawn a'i gyflwyno'n llwyddiannus. Mae ein strwythurau llywodraethu wedi'u datblygu'n ofalus er mwyn adlewyrchu'n llawn yr ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n rhan o'r rhaglen waith hon.

### Effaith

20. Bwriedir i'r cod ymarfer diwygiedig gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gwella'r modd mae awdurdodau lleol yn casglu a defnyddio data a thystiolaeth er mwyn cael dealltwriaeth well o'r effaith maen nhw'n ei chael ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

- Gwella ansawdd y data a'r dystiolaeth ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn eu defnyddio i lywio penderfyniadau, llywio datblygiadau polisi, deall patrymau a dull effeithiol o fonitro'r ddarpariaeth a'r effaith

- Gwella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

- Nodi'r meysydd lle mae angen rhagor o ddata a thystiolaeth fel bod modd cyflwyno gwelliannau ledled gofal cymdeithasol yn fwy cyson.

**Costau ac arbedion**

21. I ddechrau, bydd costau i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cod ymarfer hwn gan y bydd angen rhoi cymorth i'r sector, yn enwedig awdurdodau lleol, i ymgysylltu â'r gofynion newydd a'u gweithredu nhw.

22. Dros amser, fodd bynnag, rhagwelir y bydd hyn yn arbed costau gan y bydd dealltwriaeth gynyddol o'r data a'r dystiolaeth ymchwil yn sicrhau bod penderfyniadau gwell, mwy hyddysg, yn cael eu gwneud - gan nid yn unig effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau personol pobl, ond ar gostau cyffredinol hefyd.

**Dull gweithredu**

23. Mae pwerau galluogi'r cod wedi'u cynnwys yn Adrannau 145 ac 146 o Ddeddf 2014.

24. Mae Adran 145 o Ddeddf 2014 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i gyflwyno, ac o bryd i'w gilydd, ddiwygio un neu fwy o'r codau ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran 146 o Ddeddf 2014 yn cyflwyno'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth gyflwyno neu ddiwygio cod dan Adran 145.

## Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

25. Cafodd y cod ymarfer ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill sydd â'r rôl o gyflwyno a rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol i bobl a gofalwyr yng Nghymru.

26. Cyn cynnal yr ymgynghoriad ffurfiol, cafodd y cod ymarfer a'r canllawiau technegol ategol eu datblygu a'u profi mewn cydweithrediad agos ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid wnaeth gyfarfod yn rheolaidd rhwng mis Ionawr 2018 ac Ebrill 2019. Roedd hyn yn cynnwys trin a thrafod manwl gyda:

- Arweinwyr data awdurdodau lleol
- Penaethiaid Gwasanaethau awdurdodau lleol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Partneriaid y trydydd sector
- Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr sy'n derbyn gofal a chymorth, trwy brosiect Mesur y Mynydd.

27. Trwy ymgysylltu â phrosiect Mesur y Mynydd, llwyddwyd i sicrhau ein bod ni'n cael barn plant a'u cynrychiolwyr, pobl â nodweddion gwarchodedig a siaradwyr Cymraeg.

28. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y cod, a barodd rhwng 12 Mai a 5 Awst 2019. Law yn llaw â hyn, cyhoeddwyd canllawiau technegol drafft i ategu'r fframwaith perfformiad a gwella . Cafwyd 43 o ymatebion gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac unigolion. Wedi'r ymgynghoriad, cafodd y cod ei adolygu a diwygiadau eu gwneud fel y bo'n briodol, er mwyn ystyried safbwyntiau'r ymatebwyr.

## Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

29. Cafodd y cod ymarfer ei gynllunio er mwyn newid y modd mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir i'r cod ymarfer diwygiedig hwn gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol:

- Gwella'r modd mae awdurdodau lleol yn casglu a defnyddio data a thystiolaeth er mwyn cael dealltwriaeth well o'r effaith maen nhw'n ei chael ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

- Gwella ansawdd y ddata a'r dystiolaeth ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn eu defnyddio i lywio penderfyniadau, llywio datblygiadau polisi, deall patrymau a dull effeithiol o fonitro'r ddarpariaeth a'r effaith

- Gwella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

- Nodi'r meysydd lle mae angen rhagor o ddata a thystiolaeth fel bod modd cyflwyno gwelliannau ledled gofal cymdeithasol yn fwy cyson.

- Cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pwyslais ar greu Cymru iachach, mwy cyfartal a mwy cydnerth.

30. Mae'r cod yn ceisio sicrhau newid diwylliannol yn y modd mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn defnyddio data a thystiolaeth - newid sylweddol sy'n debygol o gael rhywfaint o effaith negyddol i gychwyn. Bydd hyn yn cynnwys:

- Bydd awdurdodau lleol angen cymorth i weithredu'r cod newydd er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu a'r sgiliau i'w gyflawni'n effeithiol.

- Bydd yn cymryd rhywfaint o amser i'r newidiadau ymwreiddio'n iawn.

31. Y tu hwnt i'r effaith ar awdurdodau lleol, mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi nodi na fydd unrhyw effaith ar lesiant pobl na chymunedau yng Nghymru, nac ar les diwylliannol Cymru nac ar y Gymraeg. Ni chodwyd unrhyw faterion o ran lles economaidd busnesau neu'r cyhoedd, yr amgylchedd, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn na'r agenda trechu tlodi.

## Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**

- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

32. Cafodd y cod ymarfer ei ddatblygu yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd hyn yn sicrhau bod y cod yn adlewyrchu'n llawn ac yn hyrwyddo'r amcanion llesiant a'r saith nod llesiant. Wrth i'r cod gael ei weithredu a'i ymwreiddio, y bwriad yw bod y maes yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant a'r saith nod llesiant er mwyn sicrhau bod y ffordd hon o weithio yn troi'n arfer reolaidd ledled y sector.

33. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd awdurdodau lleol angen cymorth ychwanegol i weithredu'r cod newydd. Bydd yn lliniaru hyn trwy wneud y canlynol:

    - cymorth i awdurdodau lleol ddarparu'r gallu i gynnwys a gweithredu'r cod newydd
    - adnoddau pwrpasol er mwyn helpu i roi'r cod ymarfer ar waith
    - cydweithio'n agos â Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu hyb gwella gofal cymdeithasol cenedlaethol (a fydd yn cynnwys strategaeth data cenedlaethol)
    - gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i helpu i hwyluso dull o wella sy'n seiliedig ar adolygu gan gymheiriaid;
    - cynnal digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn helpu awdurdodau lleol i weithredu'r cod ymarfer.

## Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

34. Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos eu cynnydd yn erbyn y safonau ansawdd, sydd wedi'u nodi yn y cod ymarfer, bob blwyddyn drwy Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol yr Awdurdod Lleol. Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn gyfuniad o'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r fframwaith perfformiad a gwella, yn ogystal ag unrhyw ddata lleol neu ddulliau eraill y mae'r awdurdodau lleol yn eu hystyried yn briodol iddyn nhw.

35. Bydd Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn craffu ar Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol yr Awdurdod Lleol. Hefyd, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n cynnal dadansoddiad blynyddol o Adroddiad Cyfarwyddwr bob awdurdod lleol a fydd yn rhoi trosolwg cenedlaethol o effaith y fframwaith newydd ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

36. Bydd Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol yr Awdurdod Lleol yn cael ei lansio fis Ebrill 2022, a chod ymarfer ar wahân yn cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi'r rhaglen waith ychwanegol hon.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2020 WG40089 ISBN Digidol **978-1-80038-133-9**